**TGAU**

**Cymraeg Iaith**

**UNED 3**

# Darllen ac Ysgrifennu: Trafod, Cyfarwyddiodol a Pherswâd

**(PAPUR ENGHREIFFTIOL)**
**2 awr**

**YR AMGYLCHFYD**
**(sylwebaeth / cymorth i ymgeiswyr)**

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Adran A (Darllen): 30 marc

Adran B (Ysgrifennu): 40 marc

Caiff nifer y marciau sydd ar gael ei ddangos mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

## YR AMGYLCHFYD

### Adran A : DARLLEN ( 30 marc)

Mae saith darn darllen am yr **Amgylchfyd** yn yr Uned hon, Mae rhai ohonynt yn destunau pytiog, rhai yn ddi-dor ac eraill yn gymysg. Mae'r testunau naill ai yn ***trafod**, yn **cyfarwyddo** neu'n* ***perswadio*****,** neu gyfuniad ohonynt. Cyflwynir y wybodaeth ynddynt mewn ffyrdd gwahanol. Ceir amrywiaeth o gwestiynau, rhai ohonynt ar ffurf aml-ddewis, tra mae eraill yn gofyn am frawddegau neu atebion mwy estynedig**.**

Dylech ddarllen y darnau darllen a'r cwestiynau'n ofalus iawn cyn mynd ati i'w hateb Ystyriwch hefyd beth yw gwerth y cwestiwn o ran marciau. Bydd hyn o gymorth i chi benderfynu faint fydd angen i chi ei ysgrifennu am y cwestiwn.

Bydd gofyn i chi ddefnyddio eich sgiliau darllen i ddeall y darnau darllen – i gasglu neu adalw ffeithiau perthnasol ohonynt, i ddehongli/ dadansoddi gwybodaeth. Bydd cwestiwn yn gofyn i chi gymharu gwybodaeth o sawl darn darllen hefyd.

Gwnewch yn siwr eich bod yn darllen y darnau a'r cwestiynau'n ofalus iawn er mwyn ateb y cwestiynau'n gywir.

**Darn Darllen 1**

**Y Côd Cefn Gwlad**

Darn darllen pytiog ydy hwn. Mae'n rhestru rheolau y Côd Cefn Gwlad yn syml ar ffurf pwyntiau bwled. Iaith gyfarwyddiadol sydd yma. Mae'n destun ffurfiol, swyddogol.

**A1** Nodwch ddau beth sydd yn dangos mai **rheolau** neu **gyfarwyddiadau** sydd yn y darn darllen hwn**.** [2]

**Cam 1**
Darllenwch y darn cyfan a'r cwestiwn yn ofalus.

**Cam 2**
Cip ddarllenwch y rhestr eto.

Meddyliwch beth ydy pwrpas rheolau/cyfarwyddiadau, a beth ydy eu nodweddion e.e.

- **berfau gorchmynnol**
- **pwyntiau bwled**
- **rhestr**

**Cam 3**
Pa fath o eiriau gewch chi mewn rheolau/cyfarwyddiadau?
**-wch**
Chwiliwch am y geiriau sy'n cynnwys –wch.

**Pa sgiliau ?**

Casglu/adalw gwybodaeth

**Atebion.**

Nodwch **2 beth.**

**Pa sgiliau?**

Casglu/adalw gwybodaeth

**Darn Darllen 2**

**Mewn Perygl !**

Darn darllen pytiog ydy hwn – mae yma baragraffau byrion, rhestr ar ffurf pwyntiau bwled a llun. Rhaid darllen yn ofalus. Bydd angen chwilio yn y darn am yr atebion cywir.

**A2**

Pa rai o'r canlynol sydd mewn perygl ym Mhrydain? Rhowch ✓ yn y blychau priodol. [3]

| | |
|---|---|
| barcud | ✓ |
| gorila | |
| morfil | |
| wiwer lwyd | |
| gwalch y pysgod | ✓ |
| panda | |
| wiwer goch | ✓ |

**Atebion**

**Cam 1**
Darllenwch y darn a'r cwestiwn yn ofalus.

**Cam 2**
Geiriau allweddol i'ch helpu yma ydy – perygl a Prydain.

**Cam 3**
Chwiliwch am enwau y rhai sydd mewn perygl.

Penderfynwch sawl un - mae **3 marc.**

Rhowch ✓ yn y blychau cywir.

**Cam 4**
I ateb **A3** rhaid i chi chwilio am y rhan sy'n sôn am y **wiwer goch**.

Nodwch beth sydd ei angen am 1 marc.

**A3**

Beth sydd ei angen cyn y gellir dal neu ladd wiwer goch?

**Ateb**

trwydded arbennig [1]

Tabl y deg uchaf o ran ailgylchu gan awdurdodau Cymru sydd yn rhan gyntaf y darn hwn yn rhoi gwybodaeth. Rhaid i chi ddadansoddi'r ystadegau er mwyn ateb y cwestiwn cyntaf.

Mae ail ran y darn yn rhoi gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd i wastraff yn Sir Benfro.Mae yma bwyntiau bwled, lluniau a rhestr o gamau yn y broses o ailgylchu.

I ateb yr ail gwestiwn, mae angen i chi geisio rhoi'r camau yn eu trefn. Mae gofyn i chi fod yn graff iawn gan nad ydy geiriad pob un yn union yr un fath ag yn y darn, felly rhaid i chi **ddehongli.**

**Darn Darllen 3**

**Beth ydych chi'n ei wneud â'ch gwastraff?**

**A4.** Ticiwch ✓ y blychau priodol i ddangos pa ddau o'r awdurdodau canlynol sydd eisoes wedi cyrraedd y targed sydd wedi'i osod ar gyfer Cymru gyfan erbyn 2016. [2]

| | |
|---|---|
| Caerfyrddin | ☐ |
| Caerdydd | ☐ |
| Ceredigion | ✓ |
| Caerffili | ☐ |
| Powys | ☐ |
| Penfro | ✓ |

**Atebion**

**Cam 1**
Darllenwch y darn a'r cwestiwn yn ofalus – cip ddarllen i ddechrau ac yna yn fwy craff.

**Cam 2**
Sylwch beth ydy'r targed ar gyfer Cymru gyfan – **58%**

Chwiliwch yn y tabl am y **ddau awdurdod** sydd wedi cyrraedd y targed hwn – **dadansoddwch** y tabl.

**Cam 3**
Rhowch ✓ yn y blychau gyferbyn â'r ddwy sir sydd wedi cyrraedd y targed

Casglu/adalw a dadansoddi gwybodaeth

**A5**

Beth sy'n digwydd i'r bagiau oren ar ôl iddynt gael eu casglu? Rhowch y camau canlynol yn y drefn gywir drwy roi'r rhifau yn y blychau priodol. [3]

**Cam 1**
Darllenwch y darn a'r cwestiwn yn ofalus – cip ddarllen i ddechrau ac yna yn fwy craff.

**Cam 2**
Edrychwch ar y camau eto er mwyn penderfynu ar drefn gywir.

Ceisiwch adnabod y camau fel ag y maent yn y darn.

Medrwch feddwl am y drefn sy'n gwneud synnwyr o ran y broses ailgylchu hefyd.

**Cam 3**
Rhowch y rhifau cywir yn y blychau i ddangos y camau yn y drefn gywir.

Rhaid i chi fod yn ofalus – mae rhai ohonynt yn debyg i'w gilydd!

Mae **3 marc** – hanner marc am bob un.

- Pentyrru'r deunydd rhydd yn uchel a'i gasglu fesul bwced gyda llwythwr ac yna ei arllwys mewn i 'hopper'. 3
- Storio'r byrnau cyn eu cludo i'w cyrchfan. 6
- Cludo'r deunydd i'w ailgylchu ar hyd belt trosglwyddo i linell gasglu i'w trefnu yn bentyrrau unigol. 4
- Lori yn mynd â'r holl ddeunydd i gyfleuster ailgylchu yn Withyhedge er mwyn gollwng y llwyth. 1
- Torri'r bagiau ar agor gan adael y deunydd ailgylchu i syrthio'n rhydd ar y llawr. 2
- Cludo'r deunydd sydd wedi ei drefnu wedyn ar hyd belt trosglwyddo arall a'i ollwng i mewn i beiriant byrnu. 5

**Pa sgiliau?**

Casglu/ dadansoddi / dehongli gwybodaeth> dilyniannu

**Darn Darllen 4**

**'Sbwriel'**

Er mai darn creadigol ydy'r gerdd fach hon, mae'n rhoi gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd i **sbwriel** o'n cwmpas, yng ngeiriau'r bardd.

Darllen, deall a ddehongli'r gerdd ydy'r dasg yma er mwyn canfod beth mae'r bardd yn ei ddweud wrthym. Mae gofyn i chi feddwl yn union beth yw ei neges.

**A6**

Beth sydd gan y bardd i'w ddweud wrthym yn y gerdd hon? Beth yw ei neges? [2]

**Cam 1**
Darllenwch y darn cyfan a'r cwestiwn yn ofalus.

**Cam 2**
Darllenwch y gerdd fesul pennill.

Ceisiwch feddwl:

- Beth ydy'r wybodaeth mae'r bardd yn ei rhoi i ni?
- Beth ydy'r neges sydd ganddo?

**Cam 3**
**A6**. Rhowch eich ateb mewn brawddeg neu ddwy,

Eglurwch yn syml beth sydd gan y bardd i'w ddweud a'i neges.

Medrwch gyfeirio at rannau penodol neu ddyfynnu.

Byddwch yn gryno – **2 farc** sydd yma. Ateb byr sydd ei angen.

**Pa sgiliau?**

**Dehongli gwybodaeth a barn**

**Atebion**

- sbwriel o'n cwmpas - ble? – beth?
- cyfrifoldeb pwy?

Meddyliwch am rhain. Rhesymwch.

Rhowch yr ateb yn fyr yn eich geiriau eich hun, am **2 farc.**

**A7** Sut mae e'n pwysleisio'r neges hon? [1]

**Darn darllen 5**

**Llifogydd! Help!**

Mae hwn yn ddarn o destun cymysg am **lifogydd** - paragraffau o destun di-dor, lluniau a phwyntiau bwled.

Mae 3 rhan – darn bach am y difrod ar ynysoedd Vanatau, rhan am lifogydd yng Nghymru. Yna rhestr o bethau y dylen ni eu gwneud os oes llifogydd.

Mae'r ysgrifennu yn **gyfarwyddiadol** yn y pwyntiau bwled hyn.

Mae cwestiwn **A8** yn gofyn i chi ateb 4 cwestiwn mewn brawddegau llawn – cofiwch wneud hynny.

**Cam 4**
I ateb **A7** rhaid i chi ddehongli'r gerdd ac ystyried dull y bardd o gyflwyno a phwysleisio ei neges.
**1 marc ( am un pwynt)**

**Atebion posibl**

ailadrodd,
cwestiwn rhethregol

**A8**

Atebwch y cwestiynau canlynol mewn brawddegau llawn. [4]

**Cam 1**
Cip ddarllenwch y darn cyfan a'r cwestiynau.

**Cam 2**
Darllenwch y darn a'r cwestiynau yn fwy craff. Meddyliwch pa rannau o'r darnau darllen sydd angen eu darllen eto.

**Cam 3**
Chwiliwch am air allweddol ym mhob cwestiwn: Bydd rhain o help i chi ffeindio'r atebion.

1. anifeiliaid
2. dŵr sy'n llifo
3. seiclon
4. cyfrifol am eiddo

**Cam 4**
Ysgrifennwch eich atebion mewn brawddegau llawn. Sylwch ar air cyntaf pob cwestiwn – **beth, pam, ymhle, pwy**. Dyma'r hyn sydd yn rhaid i chi ei ateb. Ceisiwch gael pob un yn gywir – mae un marc yr un – cyfanswm o **4 marc** am y cwestiwn hwn.

Pa sgiliau?

Casglu a dehongli gwybodaeth gan resvmu

**Atebion**

1. Beth sydd angen ei wneud gydag anifeiliaid os oes llifogydd?

   *eu symud i le diogel*

2. Pam mae angen osgoi dŵr sy'n llifo?

   *oherwydd y gall chwe modfedd o ddŵr fwrw oedolyn i'r llawr*

3. Ymhle yr oedd seiclon wedi difrodi 90% o'r adeiladau yn ddiweddar?

   .. *ynysoedd Vanuatu*

4. Pwy sydd i fod yn gyfrifol am eich eiddo?

   .*chi / ni ( nid yr Awdurdod Lleol)*

**Darn Darllen 6**

**Ai ceir trydan yw'r ateb?**

Darn o destun cymysg sydd yma yn sôn am **geir trydan**, a sut maent wedi datblygu. Mae llun o hen gar trydan ac un mwy diweddar.

Mae yma restr o anfanteision a rhai manteision i'r ceir trydan.

Ar ôl i chi eu darllen yn ofalus, mae cwestiwn **A9** yn gofyn i chi ddangos pa ddau ar y rhestr sy'n anfanteision ac yna yn **A10** gofynnir i chi nodi dwy fantais.

**A9.** Rhowch ✓ mewn 2 flwch i ddangos pa ddau o'r canlynol sy'n **anfanteision** car trydan.

[2]

| | |
|---|---|
| 1. Mae'r car trydan yn rhad i'w brynu | ☐ |
| 2. Rhaid gwefru car trydan bob 100 milltir. | ✓ |
| 3. Does dim rhaid talu treth am gar trydan | ☐ |
| 4. Mae'r car ar gael mewn llawer o liwiau. | ☐ |
| 5. Erbyn hyn mae ceir trydan yn mynd yn bellach ac yn gyflymach. | ☐ |
| 6. Rhaid talu crocbris am gar trydan. | ✓ |

**Cam 1**
Cip ddarllenwch y darn darllen a'r cwestiwn i ddechrau.

→

**Cam 2**
Ail ddarllenwch y darn er mwyn adnabod y **manteision** a'r **anfanteision** i geir trydan.

→

**Cam 3**
I ateb cwestiwn **A9** penderfynwch pa rai **(2)** sy'n **anfanteision**.

Rhowch ✓yn y blychau cywir.

Rhaid i chi fod yn ofalus – dydy geiriad pob un ddim yr un fath ag yn y darn!

Rhaid i chi **ddehongli.**

↓

I ateb cwestiwn **A10** rhaid i chi nodi **2** o **fanteision** y ceir trydan. Ysgrifennwch rhain ar y llinellau.

**Pa sgiliau?**

Dehongli/ dadansoddi gwybodaeth

**A10.** Nodwch ddwy o **fanteision** y car trydan [2]

**Darn Darllen 7**

**Cerddwch yn lle mynd yn y car!**

**Pa sgiliau**

Dyma ddarn o destun estynedig i chi ei ddarllen a'i **ddehongli.** Mae'r frawddeg gyntaf yn dangos beth ydy bwriad yr awdur.

Mae'r awdur yn cyflwyno ei bwnc ar ffurf araith ac yn rhoi ei farn. Rhaid i chi ddarllen yn graff iawn er mwyn deall yr hyn sydd ganddo i'w ddweud, beth ydy ei farn/ agwedd, a beth ydy ei neges.

Mae'r cwestiwn am i chi ystyried rhai o'r darnau darllen eraill hefyd.

- mae ceir trydan yn gwella drwy'r amser
- mae ceir 5 sedd i'w cael erbyn hyn
- does dim rhaid talu treth ar geir trydan
- erbyn hyn mae ceir trydan yn mynd yn bellach ac yn gyflymach

**Atebion posibl**

2 fantais – un marc yr un

Dehongli a chymharu

**Darn Darllen 7**

**A11.**Trafodwch agwedd yr awdur yn y darn darllen. Beth yw ei neges? Sut mae yn cyfleu hyn yn y darn? [8]

Oes neges debyg i'w gweld mewn unrhyw un o'r darnau darllen eraill yn yr Uned hon? Ym mha fodd y mae'n debyg / wahanol?

Gallwch ddyfynnu neu gyfeirio at enghreifftiau penodol o'r darn darllen i gefnogi eich pwyntiau.

**Cam 1**

Cip ddarllenwch y darn er mwyn cael syniad bras o'r hyn sydd ynddo.

**Cam 2**

Darllenwch yn fwy craff.

Chwiliwch am bethau sy'n dangos beth yw agwedd yr awdur. Tanlinellwch neu uwcholeuwch nhw. Medrwch gyfeirio at neu ddyfynnu rhai ohonyn nhw yn eich ateb.

Ydy'r awdur yn feirniadol?
Ydy e'n rhoi enghreifftiau o bethau rydyn ni'n ei wneud yn wael neu'n anghywir?

Neu ydy e'n ein canmol?

Rhaid i chi benderfynu beth ydy ei agwedd – a pha resymau y mae yn eu rhoi e.e. mynd yn y car yn hytrach na cherdded.

Beth ydy neges yr awdur? Beth mae e'n ei ddweud wrthon ni ddarllenwyr?

Sut mae yn dweud yr hyn sydd ganddo i'w ddweud? Pa fath o iaith, disgrifiadau, enghreifftiau ......? ( e.e. sôn am y tŷ, cwestiynau rhethregol..... )

**Ateb?**

**Rhaid ysgrifennu darn estynedig.**

**Rhaid trafod.**

**Cam 3**

Unwaith y byddwch wedi penderfynu beth ydy agwedd yr awdur, a'r rhesymau, medrwch ystyried darnau darllen eraill.

Oes rhywbeth tebyg yn cael ei ddweud mewn unrhyw un neu fwy o'r darnau eraill? Sut maen nhw'n debyg? Neu beth ydy'r gwahaniaeth?

**Cam 4**

Ysgrifennwch eich ateb yn drefnus, manwl ond cryno. Cofiwch bod 8 marc!

Medrwch gyfeirio at ddarnau darllen eraill yr un pryd, yn hytrach na gwneud hynny ar wahân, er mwyn eu cymharu e.e. mae'r gerdd 'Sbwriel' yn dweud ei fod yn gyfrifoldeb ar bob un ohonom.....

**ADRAN B (Ysgrifennu) : 40 marc**

Atebwch y **ddau** gwestiwn canlynol.

Bydd 20 marc am gynnwys a threfn ac 20 marc am ysgrifennu'n gywir yn y ddau gwestiwn.

Ysgrifennu'n gywir ac i bwrpas.

**Cam 1**

Meddyliwch am y pwnc a'r ffurf. **Llythyr** sydd ei angen yn y cyntaf a **Taflen** yn yr ail.

**Cam 2**

Cynlluniwch eich ateb yn fras yn gyntaf – pwyntiau bwled. Pa bwyntiau rydych chi am eu cynnwys? Pa enghreifftiau?

Oes rhai pwyntiau perthnasol yn y darnau darllen y medrwch eu cynnwys?

Pa fath o eirfa/iaith fydd angen i chi eu defnyddio?

**Cam 3**

Gan gofio am nodweddion y ffurf, gwnewch yn siwr eich bod yn dechrau eich ateb yn dda.

Gwnewch ddefnydd da o ffeithiau o'r darnau darllen, ac o ffeithiau eraill perthnasol y medrwch feddwl amdanynt.

Gwnewch yn siwr eich bod yn gwneud yr hyn mae'r cwestiwn yn gofyn amdano. Ydych chi'n mynegi eich barn yn glir yn y cyntaf? Ydych chi'n ceisio perswadio ymwelwyr i ymweld â'ch ardal, yn yr ail ddarn?

Gwnewch yn siwr eich bod yn gorffen eich atebion yn dda – yn addas i'r ffurf.

Ydy'ch iaith a'ch mynegiant yn gywir?

Mae 20 marc am y cynnwys a 20 am yr iaith.

Cofiwch fod angen 200 a 300 o eiriau.

B1. Llythyr yn mynegi barn [20]

**Rydych yn anghytuno â chynllun i adeiladu/ ddatblygu rhywbeth fyddai yn effeithio ar yr amgylchfyd yn eich ardal. Ysgrifennwch lythyr at eich cynghorydd lleol / neu eich papur bro, yn mynegi eich barn ar y mater a'ch pryderon. Dylech gynnig rhesymau pam na ddylai'r cynllun gael ei ganiatàu.**

*Os byddwch yn defnyddio gwybodaeth o'r testunau bydd angen i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.*

*Gallwch gynllunio eich gwaith yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.*

*Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol os bydd angen.*

*Dylech geisio ysgrifennu rhwng 200 a 300 o eiriau.*

B2. Taflen yn perswadio [20]

**Rydych eisiau perswadio ymwelwyr i ddod i'ch ardal i fwynhau'r amgylchfyd.**

**Lluniwch daflen gryno yn disgrifio yr hyn fydd i'w weld a'i wneud, ac yn ceisio annog ymwelwyr i ymweld â'r lle.**

**Ni ddylech dreulio gormod o amser yn dylunio'r daflen.**

*Os byddwch yn defnyddio gwybodaeth o'r testunau bydd angen i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.*

*Gallwch gynllunio eich gwaith yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.*

*Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol os bydd angen.*

*Dylech geisio ysgrifennu rhwng 200 a 300 o eiriau.*